**Y Pwyllgor Diwylliant - CC-12-01 (p.1)**

**Dyddiad:** 4 Gorffennaf 2001

**Amser:** 10.30am – 1.00pm

**Lleoliad:** Neuadd y Dref, Dinbych

**Papur Drafft gan Gyngor Sir Dinbych**

**Arolwg y pwyllgor diwylliant o'r iaith gymraeg**

Cyflwynir yr ymateb byr hwn ar sail themau a amlinellir yn y pecyn ymgynghorol i gefnogi cyflwyniad llafar i'r Pwyllgor.

**1. Galluogi**

1.1 Er mwyn galluogi pobl ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall ym mhob agwedd o fywyd cenedlaethol a'r gymuned rhaid cael y strwythur a'r mecanwaith cynnal priodol. Gall y Cyngor, ac mae, yn chwarae rol allweddol yn hyn fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau cyhoeddus.

1.2 Cyflogir canran uchel o weithlu Sir Ddinbych yn y sector gyhoeddus (42%), mewn swyddi coler wen a phroffesiynol. Gyda phwyslais ar weithio gyda phartneriaid a'r gofyniad cyfreithiol i baratoi strategaeth gymunedol, rhaid i'r Cyngor arwain yn y maes pwysig hwn. Dylid annog yr holl bartneriaid yn y sector gyhoeddus neu fusnes i arwyddo ymroddiad i ddwyieithrwydd. Dylai effaith ymroddiad o'r fath ddod i lawr i gymunedau lleol.

1.3 Gan ystyried "Betterwales.com" fel patrwm, rhaid i'r pwyslais fod ar gynnwys pawb (inclusiveness). Mae'r Adran Dai, Cynllunio ac Economaidd yn ystyried effaith eu polisiau ar iaith a diwylliant. Sylwir erbyn Mawrth 2003 fod yn rhaid i'r holl bartneriaid weithio gyda'r Cynulliad i gyrraedd y nod o sefydlogi'r canran o siaradwyr Cymraeg.

1.4 Rhaid cefnogi'r bobl ifanc sy'n siarad yr iaith a rhaid hefyd rhoi cefnogaeth i'r oedolion hynny sydd eisiau dysgu'r iaith. Rhaid i'r Cyngor fodd bynnag geisio, trwy ei raglenni datblygu staff, barhau i annog ei staff i ddysgu a gwella eu Cymraeg a thrwy hynny wella cyfle i'r cyhoedd gael y dewis o ba iaith i'w ddefnyddio wrth wneud busnes.

1.5 Mae'r Cynllun Unedol yn ceisio amddiffyn ac hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant drwy:-

- gyfyngu ar y nifer o dai y gellir eu hadeiladu mewn cymunedau gwledig

- darparu tir ar gyfer diwydiant er mwyn cynnig cyfle i bobl leol weithio yn eu cymunedau

- lle mae perygl o effaith andwyol ar yr iaith a diwylliant gofyn i'r datblygwr asesu yr oblygiadau

1.6 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cyfranu at bolisiau'r Cynllun Unedol ac mae'r Cyngor Sir wedi cytuno i baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol manwl ar yr iaith Gymraeg

**2. Cefnogi’r iaith gymraeg yn y teulu a’r gymuned**

2.1 Yn y tymor hir / canolig bydd dyfodol yr iaith Gymraeg fel iaith teulu a iaith cymuned yn dibynnu ar faint o ddarpariaeth cyn oed ysgol a safon hynny fydd ar gael, a chymorth i oedolion ddysgu’r iaith. Gan gymryd y bydd y ddarpariaeth addysg prif ffrwd 5-16 yn parhau i baratoi plant a phobl ifanc lleol i gael sgiliau hanfodol yn y Gymraeg a’r Saesneg, rhaid i’r gymuned a’r gweithlu fod yn amgylchedd lle gwelir y Gymraeg a’i defnyddio nid yn unig fel cyfrwng byw ond hefyd ysgrifenedig ar bob lefel o allu.

2.2 Tra bod pobl yn symud i mewn ac allan o ardaloedd gwledig a threfol dylai’r rhai sy’n symud i mewn, os dymunant, ddod yn rhan o’r gymuned trwy dargedu grwpiau oedran e.e. darpariaeth cyn oed ysgol a meithrinfa a chyflwyniad cynnar i’r iaith Gymraeg ac wedi hynny hyfforddiant o safon uchel yn y gweithlu i hyrwyddo parhad yr iaith Gymraeg er gwaethaf pwysau cyson a achoswyd trwy newidiadau demograffegol. Gallai cynlluniau arbennig i’r diben yma gael budd o ariannu allanol yn amodol ar y rheoliadau cyfredol e.e. Arian Ewropeaidd / Amcan Un.

2.3 Mae cyflogaeth yn un ffactor allweddol i barhad cymunedau. Wrth farchnata Cyngor Sir Ddinbych rydym yn pwysleisio dwyieithrwydd ac amrywiaeth diwylliannol yr ardal. Mae cyflogwyr fodd bynnag yn tueddu i roi mwy o bwyslais ar lefel sgiliau yn y gweithlu a faint o safleoedd sydd o fewn cyrraedd hawdd i gludiant cyhoeddus etc. Mae cael swyddi da i bobl ifanc yn angenrheidiol i sicrhau parhad cymuned fywiog. Bu mwy o symud o ardaloedd gwledig Cyngor Sir Ddinbych ers y rhyfel byd cyntaf oherwydd diffyg cyfleoedd gwaith.

2.4 Mae ffyniant yr iaith Gymraeg o fewn Cyngor Sir Ddinbych yn dibynnu ar leoliad gwahanol gwmniau o fewn y Sir sy’n gallu datblygu a marchnata eu cynnyrch hyd safon byd eang. Fel hyn gallwn sicrhau bod gwaith i’n pobl ifanc a thrwy hynny y gwelir budd y system addysg leol o ddysgu Cymraeg i ddisgyblion yn ystod eu gyrfau yn Sir Ddinbych.

**3. Dysgu cymraeg**

3.1 Fel cyflogwr sylweddol yng Nghymru mae cynllun hyfforddi’r Cyngor yn cynnwys darparu

hyfforddiant i staff. Caiff hyn ei fonitro a'i arolygu i sicrhau bod cyfle i'r rhai sy'n dymuno dysgu. Anogir staff i ddefnyddio'r iaith ac mae polisi dwyieithrwydd y Cyngor yn rhoi hawl i gael gwasanaeth cyfartal yn y naill iaith neu'r llall. Mae hyfforddiant yn digwydd yn gyson i uwchraddio sgiliau dysgu Cymraeg neu agweddau eraill a chaiff ei annog. Ystyrir y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg fel sgil hanfodol.

3.2 Mae cynlluniau ar y gweill i ddefnyddio modelau arbrofol o ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg yn y gweithle yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn dilyn o adroddiad adeiladol ac amserol a dderbyniwyd gan Fwrdd yr Iaith. Bydd y cynlluniau yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf 2001.

**4. Parch ac ewyllus da tuag at ddwyieithrwydd - cred, balchder a hyder**

4.1 Mae'r canlynol yn adlewyrchu gwaith datblygu'r Cyngor yn hyrwyddo parch ac ewyllus da tuag at yr Iaith Gymraeg a dwyieithrwydd. Yn Sir Ddinbych gwelir hyn fel datblygu'r diwylliant o ddwyieithrwydd presennol. Hefyd fe restrir ffyrdd o weithredu'n genedlaethol i helpu wireddu'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol: -

- Mae offer cyfieithu ar y pryd ar gael bob amser i gyfarfodydd - hyd yn oed lle mae'r rhain yn rhai llai ffurfiol.
- Rhaid sicrhau bod dogfennau bob amser yn ddwyieithog ;
- Gofyn i bartneriaid o sectorau busnes eraill y gymuned fod yn ddwyieithog e.e. trwy hybysebu'n ddwyieithog ac arddangos arwyddion dwyieithog amlwg.
- Annog busnesau bach a mawr gael staff dwyieithog.
- Clymu trefniadau (contract) i sicrhau bod contractwyr yn cadw at bolisi'r Cyngor
- Os bydd Aelodau neu swyddogion y Cyngor yn siarad Cymraeg - eu hannog i ddefnyddio'r iaith i wneud eu busnes a chymryd cyfrifoldeb am lwyddiant y polisi dwyieithrwydd.
- Defnyddir y cyfryngau i hyrwyddo dwyieithrwydd trwy fecanwaith P.R. mewnol
- Ni ddylid mesur buddsoddiad mewn dwyieithrwydd mewn termau ariannol.
- Dylid gwneud defnydd llawn o gryfder corfforaethol y Cyngor i sicrhau bod dwyieithrwydd yn fater cysylltiol ac yn barhaol ar yr agenda.
- Gall y Cyngor, a dylai, hyrwyddo dwyieithrwydd yn y Gymuned i greu effaith positif ar fudiadadau eraill.

**CENEDLAETHOL**

- Dyrchafu statws yr iaith a diwylliant a'i rhoi ar yr un lefel a materion amgylcheddol. Gwneud hyn drwy gyflwyno rheoliadau newydd yn ei gwneud yn hanfodol bod datblygiad mawr neu arwyddocaol mewn ardal ddiwyllianol sensitif i gyflwyno asesiad

ieithyddol - tebyg i'r Asesiad o Effaith Amgylcheddol

- Diwygio'r Nodyn a Chyngor Technegol (Technical Advice Note) a gyhoeddir gan y Cynulliad a chynnwys enghreifftiau ymarferol o sut i asesu effaith datblygiad ar yr iaith a diwylliant
- Cyflwyno rheoliadau newydd i'w gwneud hi'n hanfodol i bob Cyngor asesu effaith polisiau bwriedig yn y Cynllun Unedol ar yr iaith a diwylliant h.y. cyffelyb i'r angen i wneud yr Arfarniad Amgylcheddol.
- Sicrhau bod y Cynlluniad yn ymyryd lle nad yw Cynlluniau Unedol yn dangos yn glir eu bod wedi ystyried effaith y polisiau ar yr iaith Gymraeg
- Newid y Cylchlythyr (circular) Cynllunio ar Gytundebau 106 (Section 106) i alluogi Cynghorau yn gyfreithlon i ofyn am gyfraniad gan ddatblygwyr (bo yn arianol neu arall) tuag at hyrwyddo diwylliant bro e.g. cynnal ysgolion, papurau bro, siopau cymunedol ayyb

**29/06/01**